

Enw'r corff: Cyngor Sir Ynys Môn

Mae'r Cyngor Sir yn croesawu'r egwyddorion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 sy'n cadarnhau statws swyddogol i'r iaith ac sy'n hybu a hwyluso'r defnyddio'r Gymraeg. Y gobaith yw y bydd hyn yn ei gwneud hi'n haws i ddefnyddwyr gwasanaeth wybod pa wasanaethau y gallent eu derbyn yn Gymraeg ac y bydd rhagor o gysondeb a chynnydd yn ansawdd y gwasanaethau rheiny.

Credir ei bod bellach yn amserol, bum mlynedd wedi pasio'r Mesur, i gynnal dialog ac adolygu'r gwersi a ddysgwyd hyd yma yn y broses. Byddai modd wedyn ystyried cyflwyno unrhyw addasiadau neu welliannau. Dylid ystyried os yw pwyslais y Mesur yn alinio gydag ac yn debygol o gefnogi gwireddu'r uchelgais o 'Filiwn o Siaradwyr' erbyn 2050.

Gofynnir i Lywodraeth Cymru sicrhau bod adnoddau ychwanegol digonol mewn lle ar gyfer gwireddu'r uchelgais ar gyfer 'Miliwn o Siaradwyr' erbyn 2050.

Isod gweler yr ymateb i'r cwestiynau penodol a roddir gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'r adolygiad:

Beth yw eich profiad neu farn o'r gyfundrefn safonau?

Fel pob corff arall, bu cryn waith paratoadol i'r Cyngor ar gyfer y Safonau Iaith. Roedd hyn yn cynnwys hunanasesiad, ymateb i'r ymgynghoriadau ar y Safonau drafft, yr Ymchwiliad Safonau, Polisi Gorfodi Comisiynydd y Gymraeg a chyflwyno ymateb i'r hysbysiad cydymffurfio drafft.

Yn dilyn derbyn yr Hysbysiad Cydymffurfio Terfynol, roedd cryn waith ynghlwm, o fewn amserlen eithaf heriol i sicrhau cydymffurfiaeth y Cyngor gyda'r 160 Safon. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys dehongli'r gofynion, codi ymwybyddiaeth staff am y gofynion drwy hyfforddiant, bwletinau a chanllawiau gweithredu. Mae'r gwaith o godi ymwybyddiaeth am y gofynion yn broses barhaus. Yn ogystal, mabwysiadodd y Cyngor Bolisi Iaith Gymraeg o'r newydd sy'n gyplysiad o'r Safonau Iaith a'i Gynllun Iaith Gymraeg. Roedd hyn yn ymgais i gadw rhai ymrwymïadau a manylder a oedd yn mynd tu hwnt i ofynion y Safonau e.e. gosod y Gymraeg uwchben y Saesneg, y drefn gyda'r gwasanaeth cyfieithu, enwi lleoedd.

Mae peth amwysedd wrth ddehongli gofynion rhai Safonau wedi peri anawsterau ar lefel gweithredol ar brydiau ac wedi arwain tuag at wahanol ddehongliadau gan gyrff gwahanol. Mae'r enghreifftiau yn cynnwys pa ddogfennau i'w cynnwys yn y Gwahoddiad i Dendro a'r diffiniad o beiriant hunanwasanaeth. Yn yr achosion hyn, mae'r Cyngor wedi gofyn am arweiniad pellach gan Gomisiynydd y Gymraeg. Ar lefel cydweithio, mae ar brydiau'n anodd ar lefel ymarferol pan fo cyrff cyhoeddus cyfagos wedi'u heithrio o rai Safonau neu sydd ddim eto wedi derbyn Hysbysiad Cydymffurfio Terfynol. Gall hyn greu diffyg cytundeb am yr angen i ddarparu rhai dogfennaeth yn ddwyieithog neu gynnal cyfarfodydd llesiant trwy'r Gymraeg heb wasanaeth cyfieithydd.

Mae rôl Comisiynydd y Gymraeg yn cynnwys swyddogaethau rheoleiddio a chyfrifoldebau am hybu a hyrwyddo defnydd yr iaith. Ydi'r balans yn gywir?

Ers sefydlu swyddogaeth Comisiynydd y Gymraeg, mae'r pwyslais wedi bod ar reoleiddio'n bennaf. Golyga hyn bod anogaeth wedi bod i ddefnyddwyr gwasanaeth

gwyno am ddiffygion yn y ddarpariaeth gwasanaethau Cymraeg. Mae hyn yn ei dro wedi arwain at beth negyddiaeth efallai yn hytrach na phwyslais ar wella safon gwasanaethau trwy gynnig arweiniad ac esiamplau o arfer da y gellir eu rhannu ar draws sefydliadau.

Er mwyn gosod y cywair yn fwy cadarnhaol, byddai o gymorth petai modd i'r corff unigol ddelio gydag unrhyw gwyn yn lleol yn y lle cyntaf ac yna i Gomisiynydd y Gymraeg ymyrryd mewn achosion lle na cheir datrysiaid neu lle bo patrwm o ddiffyg cydymffurfiaeth. Byddai hyn yn arwain at gysondeb gyda threfn gweithredu Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Byddai darparu canllawiau ac arweiniad gan y rheoleiddiwr yn fodd o sicrhau ansawdd a chysondeb yn safon y gwasanaethau a ddarperir. Yn yr un modd, byddai rhannu'r esiamplau o arfer da hefyd yn fodd o ddathlu llwyddiannau ac osgoi dyblygu ar draws y gwasanaethau cyhoeddus. Mae gwneud y defnydd gorau o adnoddau'r rheoleiddiwr a'r cyrff cyhoeddus yn allweddol mewn hinsawdd lle bo adnoddau'n brin.

Credir y byddai ail gychwyn y gweithgareddau a gynhaliwyd yn y gorffennol gan Fwrdd yr Iaith a/neu Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar gyfer swyddogion iaith y sector gyhoeddus i drafod datblygiadau a rhannu arfer da mewn perthynas â hybu a hyrwyddo'r Gymraeg o gymorth sylweddol.

Beth yw eich profiad neu farn am y trefniadau presennol am hybu a hyrwyddo defnydd y Gymraeg?

Mae'n rôl i Lywodraeth Cymru i osod y cyfeiriad strategol a pholisi ar gyfer yr Iaith Gymraeg ac amlygir y weledigaeth hir dymor yn y ddogfen 'Miliwn o Siaradwyr Cymraeg erbyn 2050'. Cydnabyddir ei bod yn anodd i gynllunio'n hir dymor yn y maes iaith ond serch hynny, croesawir derbyn y cynllun gweithredu ar gyfer cyflawni'r weledigaeth hon maes o law. Bydd hyn yn fodd o dracio cynnydd, sicrhau atebolrwydd a'r plethiad strategol rhwng y weledigaeth genedlaethol a'r un lleol. Ar lefel lleol, mae'r Cyngor yn hybu a hyrwyddo'r iaith ar lefel cymunedol trwy ei Strategaeth Iaith Gymraeg 2016-2021 a ddatblygwyd trwy'r Fforwm Iaith sirol. Yn ogystal, ar lefel cymunedol, mae Menter Iaith Môn yn gweithredu lluo o brosiectau a ariennir drwy grant gan Lywodraeth Cymru er mwyn hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg ymysg gwahanol garfannau o'r boblogaeth yn lleol.

O fewn y Cyngor Sir, gosodir disgwyliadau ar y gweithlu i hybu a hyrwyddo'r Gymraeg trwy weithredu gofynion ei Bolisi Iaith Gymraeg.

Pwy ddylai fod yn gyfrifol am hybu defnydd y Gymraeg?

O ran hybu a hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg ar lefel genedlaethol, credir y gellir edrych ar fodel Bwrdd yr Iaith fel un o arfer da. Llwyddwyd yma i gynnal y cydbwysedd rhwng rheoleiddio a hyrwyddo a hybu'r Gymraeg. Credir felly, y gall un corff gyflawni'r ddwy swyddogaeth yn llwyddiannus ac adeiladu perthynas o gydweithio gyda chyrff unigol er mwyn cryfhau'r defnydd o'r Gymraeg.